'CLECS' O'R CLYBIAU

Aeth CG Cywion Conwy i gael noson harddwch ym mis Chwefror, yn siop Code Cosmetics, Llandudno. Sian Bratch gafodd y fraint o fod yn fodel ar y noson, wrth i Nicky (y perchennog) ei gweddnewid â cholur newydd. Roedd digon o wario yn y siop ar ddiwedd y sesiwn, coeliwch fi! Diolch i fam a merch Nicky am y lluniaeth ysgafn.

Sioe Gerdd *Esther*: Roedd canmoliaeth uchel i berfformiad Cwmni Myrddin o'r sioe gerdd *Esther* gan Nan Lewis yn Theatr y Lyric, Caerfyrddin. (Mae Nan yn eistedd yng nghanol y llun). Roedd nifer o aelodau'r mudiad wedi cymryd rhan, yn cynnwys rhai o CG y Gwendraeth, a welir yn y llun.

Dathlu'r 'Dau Ddwrn': Mae'r wynebau llon yn dweud y cwbwl ... Llongyfarchiadau mawr i'r dair aelod yma o CG Bro Tysul am ddod yn fuddugol yng Nghystadleuaeth 'Dewis Dau Ddwrn' Chwaraeon Rhanbarth Ceredigion.

Clwcs i'r Clecs: Dyma aelodau CG Clydau yn cael amser wrth eu bodd ar ymweliad â Fferm Ffowls ger Llanfynydd.

'PiYo': Beth yw 'PiYo' ddwedech chi? Wel ie, cyfuniad o 'Pilates' a 'Yoga'! Dyma aelodau CG Angylion Aber yn rhoi tro arni.

Ar 22 Ionawr daeth criw o CG Sêr Maelor at ei gilydd am noson o ffitrwydd gyda Rebecca. Dyma nhw'n barod i ddechrau!

Dyma CG y Gors Goch wedi cael modd i fyw mewn cwis hwyliog ganol Tachwedd.

Mae aelodau CG Fama wedi bod yn brysur iawn ers y Nadolig. Ar Ionawr 22 aeth aelodau i helpu elusen SHARE, sy'n cefnogi'r digartref a ffoaduriaid, i lenwi lori enfawr gyda dillad, plancedi, bwyd a deunydd ymolchi i'w cludo'n uniongyrchol i Syria.